

Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020 - 2024

Appendix C: Terminoleg



Appendix C: Terminology

<p>Cyfathrebu hygyrch - mae hyn yn golygu cyfathrebu y gall holl aelodau'r gymuned ei ddeall, gan gynnwys pobl fyddar a phobl anabl a phobl sy'n defnyddio Saesneg fel ail iaith.</p>
<p>Ceisiwr lloches - dyma berson sydd wedi ceisio amddiffyniad fel ffoadur, ond nad yw ei hawliad am statws ffoadur wedi'i asesu eto.</p>
<p>PDdALIE - dyma'r llythrenw ar gyfer y term Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.</p>
<p>Gofalwr - dyma rywun sy'n rhoi cymorth, heb dâl, i ffrind neu aelod o'r teulu sydd angen cymorth oherwydd anabledd, salwch, neu am reswm arall fel caethiwed.</p>
<p>Uchelgais Prifddinas - dyma gynllun pum mlynedd trosfwaol Cyngor Caerdydd ar gyfer y ddinas, sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y ddinas a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd.</p>
<p>Addewid Caerdydd - dyma fenter sy'n gweithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno plant a phobl ifanc i'r ystod enfawr o gyfleoedd sydd ar gael iddynt ym myd gwaith.</p>
<p>Cydlyniant Cymunedol - ein diffiniad o hyn yw'r hyn a nodir yng Nghynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae hyn yn esbonio Cydlyniant Cymunedol fel:</p> <p>“Y weledigaeth o gymdeithas integredig, gydlynus a gwydn yn seiliedig ar dair sylfaen:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael cyfleoedd tebyg mewn bywyd;• bod pobl yn gwybod eu hawliau a'u cyfrifoldebau;• bod pobl yn ymddiried yn ei gilydd ac yn ymddiried mewn sefydliadau lleol i weithredu'n deg;• ac ar dair ffordd o fyw gyda'i gilydd:• gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol ac ymdeimlad o berthyn;• ffocws ar yr hyn sydd gan gymunedau newydd a phresennol yn gyffredin, ochr yn ochr â chydabod gwerth amrywiaeth;• perthynas gref a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. <p>Mae cysylltiad cryf rhwng cydlyniant cymunedol a gwaith ar gydraddoldeb a diogelwch cymunedol. Mae'r tri maes gwaith yn gorgyffwrdd i ffurfio sbectrwm 'Gwydnwch Cymunedol' lle mae gwaith i gryfhau hawliau a chyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da yn atal digwyddiadau diogelwch cymunedol i lawr yr afon megis trosedd casineb a pha mor agored ydynt i'r perygl o radicaleiddio.</p>
<p>Ymgysylltu â'r gymuned - dyma'r broses sy'n cynnwys cymunedau mewn trafodaethau, gwneud penderfyniadau a gweithredu ymarferol. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau a gall gynnwys ymgysylltu wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.</p>

<p>Cynllun Corfforaethol - dyma'n cynllun sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni'r Uchelgais Prifddinas</p>
<p>Anabledd - diffinnir anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel bod â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' negyddol ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol dyddiol. Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ei ddiffinio fel effaith y rhwystrau, y gwahaniaethu a'r anfanteision sy'n wynebu pobl anabl, nid effaith eu nam penodol.</p>
<p>Amrywiaeth - dyma'r term ar gyfer ymwneud â chydabod, parchu a gwerthfawrogi set eang o wahaniaethau, a dealltwriaeth bod y cyfleoedd a gawn yn cael eu heffeithio gan nodweddion y tu hwnt i'r rhai a ddiogelir gan ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys dosbarth, cefndir teuluol, barn wleidyddol ac aelodaeth o undeb.</p>
<p>Cyfradd cyflogaeth: - dyma'r nifer sydd mewn cyflogaeth, wedi'i fynegi fel canran o bawb yn y grŵp oedran hwnnw (yn yr achos hwn, pawb o oedran gweithio).</p>
<p>Cydraddoldeb - dyma'r term ar gyfer ymwneud â chydabod a pharchu gwahaniaethau, gan gynnwys anghenion gwahanol, sicrhau y gall pobl fyw eu bywydau heb ddioddef gwahaniaethu, gan wybod bydd eu hawliau yn cael eu diogelu, a chael yr hyn sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn bywyd.</p> <p>Mae'n ymwneud â sicrhau cyfle cyfartal drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu rhai grwpiau, drwy wneud Caerdydd yn decach drwy leihau'r rhaniadau cymdeithasol ac economaidd sy'n gwahanu pobl.</p> <p>Y nodweddion gwarchoddedig yw ailbennu rhywedd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, hil, oedran, priodas a phartneriaeth sifil a rhywedd.</p>
<p>Troseddau casineb - dyma unrhyw drosedd a dargedir at berson oherwydd gelyniaeth neu ragfarn tuag at anabledd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth draws yr unigolyn hwnnw, neu ganfyddiad o'r rhain. Gellir cyflawni hyn yn erbyn person neu eiddo.</p>
<p>Digartrefedd - dyma yw'r cyflwr o fod heb le i fyw sy'n gefnogol, yn fforddiadwy, yn weddus ac yn ddiogel. Er mai'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yw'r boblogaeth ddigartref fwyaf amlwg, mae'r rhan fwyaf o bobl ddigartref yn byw mewn hosteli, sgwatau, llety gwely a brecwast neu mewn amodau dros dro ac ansicr gyda ffrindiau a theulu.</p>
<p>Cenhedlaeth y Mileniwm - dyma'r rhai a gawsant eu geni rhwng 1981-1996 (weithiau caiff hyn ei nodi fel 1980-2000)</p>
<p>Cynhwysol - dyma'r term ar gyfer dylunio sy'n creu amgylcheddau y gall pawb eu defnyddio i gael mynediad at yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael, a chael budd ohonynt, a gallant wneud hynny'n hyderus, yn annibynnol a gyda dewis ac urddas. Mae dylunio cynhwysol yn osgoi gwahanu neu arwahanu ac mae'n cynnwys lleoedd a gofodau sy'n cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth, gan ddiwallu anghenion pawb yn y gymdeithas.</p>
<p>Twf cynhwysol - dyma dwf economaidd sy'n creu cyfle i'r boblogaeth gyfan ac yn dosbarthu difidendau'r cynnydd mewn ffyniant, mewn termau ariannol ac anariannol, yn deg ar draws cymdeithas.</p>

<p>Cynhwysiant - ystyr hyn yw cael gwared ar rwystrau a chymryd camau i greu cydraddoldeb, harneisio amrywiaeth a sicrhau cymunedau a diwylliannau diogel, croesawgar sy'n annog ffyrdd arloesol a newydd o feddwl a galluogi pobl i leisio'u barn, yn enwedig er mwyn awgrymu lle y gellid gwneud pethau'n well.</p>
<p>LHDT+ - llythrenw sydd â'r ystyr Lesbiaid, Hoywon, Deurywiol a Thrawsrywiol (gan gynnwys Rhywedd Cwiar, Andeuaid, Cwestiynu, Rhyngrywiol ac Anrhywiol).</p>
<p>Pobl hŷn - mae hyn yn cyfeirio at bobl dros 50, ond mae hefyd yn cydnabod y gall y rheiny sydd dros oedran ymddeol a rhai dros 70 fod â gofynion penodol.</p>
<p>Bwlch cyflog - ystyr hyn yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dau grŵp gwahanol o bobl, er enghraifft dynion a menywod, neu grwpiau o wahanol gefndiroedd ethnig.</p>
<p>Nodweddion gwarchoddedig - y rhain yw'r naw nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion gwarchoddedig yw: ailbennu rhywedd, anabled, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, hil, oedran, priodas a phartneriaeth sifil a rhywedd.</p>
<p>Tlodi - diffinnir hyn drwy gymharu safonau byw mewn cymdeithas ar adeg benodol. Mae pobl yn byw mewn tlodi pan nad oes ganddynt incwm sy'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion materol a phan fydd yr amgylchiadau hyn yn eu heithrio rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhan dderbyniol o fywyd bob dydd y gymdeithas honno.</p>
<p>Ffoaduriaid - pobl sydd 'oherwydd ofn, sydd â sail dda iddo, o gael eu herlid am resymau'n ymwneud â hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol, y tu allan i wlad eu cenedligrwydd, ac sy'n methu, neu oherwydd y fath ofn yn amharod, i fanteisio ar ddiogelwch y wlad honno...'. (Confensiwn Ffoaduriaid 1951)</p>
<p>Dyletswydd economaidd-gymdeithasol - daw hyn o dan Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd i fod i gael ei gyflwyno yng Nghymru yn 2021. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus 'wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer ei swyddogaethau) (i) roi sylw dyladwy i fuddioldeb eu harfer mewn ffordd a gynlluniwyd er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol'</p>
<p>Anghenion addysgol arbennig - diffinnir y rhain mewn deddfwriaeth fel plentyn neu berson ifanc sydd ag anhawster neu anabledd dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysg arbennig.</p>
<p>UNICEF - sefydliad rhyngwladol yw hwn, sef Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig</p>
<p>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (neu'r MALIC) - mae'r mynegai wedi'i gynllunio i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd fwyaf difreintiedig.</p> <p>Y MALIC yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol ac wedi'i gynhyrchu gan ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynhoad uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd.</p>

